



Tribiwnlys Tir
Amaethyddol
Cymru

Agricultural
Land Tribunal
Wales

Adroddiad Blynyddol

2013 – 2014

Gorffennaf 2014

Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom Ni	4
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	7
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	12
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	13
Adran 5	Gwariant	14

Rhagair

Dyma ail Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Mae'n adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014.

Yn ystod y flwyddyn, mae llwyth gwaith y tribiwnlys wedi cynyddu ac mae'r gwahanol fathau o achosion sy'n aros am ddedfryd ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r amrywiol anghydfodau sy'n gallu effeithio ar y rhai sydd ar dir amaethyddol yng Nghymru.

Rydym yn ystyried unrhyw anghydfod sydd o fewn ein hawdurdodaeth gan sicrhau bod pob achos yr ydym yn ymdrin ag ef yn cael sylw mor effeithiol ac mor gyflym ag sy'n bosibl. Ein nod ym mhob achos yw sicrhau bod y rhai sydd mewn anghydfod yn gweld y tribiwnlys yn ei ddatrys yn deg ac yn effeithiol.

Rydym yn croesawu aelodau newydd y panel a recriwtiwyd i'r tribiwnlys eleni. Penodwyd yr aelodau yn dilyn proses ddewis drylwyr ac rwy'n falch iawn ein bod bellach yn medru manteisio ar eu profiad a'u gwybodaeth amaethyddol.

Mae ein dirprwy gadeirydd, Simon Duffy, yn ymddeol ym mis Mai 2014, ar ôl gwasanaethu'r tribiwnlys dros nifer o flynyddoedd. Hoffwn ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r tribiwnlys.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau gyda'n swyddogaeth dros y flwyddyn nesaf fel prif fforwm ar gyfer datrys anghydfodau yn ymwneud â thir amaethyddol yng Nghymru.

Rydym yn croesawu unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynghylch cynnwys yr adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at ysgrifennydd y tribiwnlys.



Adran I – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Cefndir
- Trosolwg
- Aelodau'r Tribiwnlys
- Cysylltu â'r Tribiwnlys

Cefndir

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru'n chwarae rhan bwysig drwy ddatrys anghydfodau a phroblemau eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol sy'n deillio o gytundebau tenantiaeth sy'n cael eu dal dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru hefyd yn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru'n dribiwnlys annibynnol ag awdurdodaeth dros dir Cymru yn unol â Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardaloedd) 1982 (SI 1982/97).

Trosolwg

Prif nod Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yw;

- darparu gwasanaeth cwsmeriaid cost-effeithiol ac o ansawdd da i'r rhai sy'n defnyddio'r tribiwnlys a'r aelodau,
- sicrhau bod pob agwedd o waith y tribiwnlys yn cael ei weinyddu mewn ffordd a fydd yn sicrhau dyfarniad teg, annibynnol ac amserol,
- gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol perthnasol yng Nghymru.

Mae'r tribiwnlys wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel i siaradwyr Cymraeg a Saesneg sy'n defnyddio'r tribiwnlys.

Mae'r rheoliadau sy'n rheoli'r tribiwnlys i'w gweld yn y deddfwriaeth ganlynol:

- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardal) 1982
- Deddf Draenio Tir 1991
- Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007

Ni chodir tâl am wneud cais i'r tribiwnlys. Nid yw'n ofynnol ychwaith i'r naill ochr na'r llall dalu costau adroddiad gan arbenigwr annibynnol mewn achosion lle gofynnir am adroddiad o'r fath i helpu'r tribiwnlys.

Mewn gwrandawriad mae panel y tribiwnlys yn cynnwys cadeirydd â chymwysterau cyfreithiol a dau aelod llewyg. Penodir aelodau llewyg oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyffredinol.

Fel arfer, bydd gwrandawiadau'r tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac yn agos at y tir dan sylw. Ystyrir unrhyw ofnyion arbennig sydd gan y rhai sy'n dod i wrandawriad, megis; cadair olwyn, cymorth clyw, cyfieithydd ac ati.

Mae'r tribiwnlys yn cyhoeddi'r penderfyniadau ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Gellir apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar seiliau cyfyngedig.

Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch y tribiwnlys a'i weithdrefnau ar wefan Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Neu gallwch gysylltu ag ysgrifennydd y tribiwnlys i gael rhagor o wybodaeth neu os ydych am dderbyn cyhoeddiadau ar ffurf wahanol.

Aelodau'r Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelodau Lleyg. Gwneir penodiadau ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol hysbysebu swyddi gwag a chynnal cyfweiliadau cystadleuol.

Cadeirydd Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol y tribiwnlys a'r aelodau.

Aelodau Lleyg Mae Aelodau Lleyg yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol i waith y tribiwnlys. Maent yn eistedd ar y Panel Draenio Tir; y Panel Ffermwyr neu'r Panel Tirfeddianwyr.

Ysgrifennydd Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r Ysgrifennydd sy'n ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r tribiwnlys. Mae'r Ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ynglŷn ag unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn y gwrandawriad ac yn trosglwyddo dyfarniadau a chyfarwyddiadau'r Cadeirydd yn ysgrifenedig i'r partïon. Mae'r Ysgrifennydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y Cadeirydd, yr Aelodau a'r partïon ac yn mynd i bob gwrandawriad er mwyn sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn ddirwysr.

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Cadeirydd
James Buxton

Dirprwy Gadeirydd
Simon Duffy

Panel Draenio Tir
3 Aelod

Panel Ffermwyr
10 Aelod

Panel Tirfeddianwyr
10 Aelod

Penodiadau

Mae'r dirprwy gadeirydd presennol wedi hysbysu'r tribiwnlys ei fod yn bwriadu ymddiswyddo ar ddiwedd ei dymor presennol ar 31 Mai 2014. Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn y broses o geisio recriwtio olynnydd iddo.

Hyfforddiant a Gwerthuso

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi na gwerthuso eleni.

Bwriedir cynnal cynhadledd hyfforddi i'r holl aelodau yn ystod blwyddyn adroddiad 2014/15, a disgwylir y bydd rhaglen werthuso perfformiad ar gyfer aelodau'r tribiwnlys yn cael ei chynnal hefyd yn ystod y flwyddyn.

Cysylltu â'r Tribiwnlys

Mae'r manylion ar gyfer cysylltu â Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru fel a ganlyn:

Cyfeiriad y Tribiwnlys: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5HA

Llinell Gymorth y Tribiwnlys: 01597 829809

Ffacs y Tribiwnlys: 01597 829801

E-bost y Tribiwnlys: altwales@wales.gsi.gov.uk

Gwefan y Tribiwnlys: www.alt.wales.gov.uk

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Adolygiadau ac apeliadau sy'n cael eu hanfon ymlaen
- Cyflawniad ar sail dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn tribiwnlys yn ymestyn o fis Ebrill i fis Mawrth. Cesglir yr ystadegau a ganlyn:

- nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- math o gais a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd
- nifer y ceisiadau yn ôl canlyniad;
- y math o gais a'r canlyniad.

Tabl 2.1 Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd 2013-201

Yn ystod y cyfnod 2013-14, daeth cyfanswm o 14 cais i law'r Tribiwnlys. Mae'r siart isod yn dangos nifer y ceisiadau ym mhob awdurdodaeth tribiwnlys. Dros y cyfnod hwn bu'r tribiwnlys hefyd yn rhoi sylw i 13 cais a oedd yn parhau ers 2012-2013.



Tabl 2.2 Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd yn ôl Blwyddyn a Math o Gais

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Dderbyniwyd ac a Gofrestrwyd			
	2013-2014	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	0	4	3	3
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	8	3	5	6
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	2	1	1	3
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	3	2	2	1
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	1	0	0	1
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	0	1
Offer Parhaol	0	0	1	0
Cyfanswm	14	10	12	15


Tabl 2.3 Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd fesul blwyddyn

Mae achos wedi'i gwblhau yn gais sydd wedi cael ei gwblhau drwy un o'r canlynol:

- yr ymgeisydd yn tynnu'r cais yn ôl,
- gwrandawriad lle mae'r Tribiwnlys yn penderfynu gwrthod neu gefnogi'r cais,
- gorchymyn cydsynio yn cael ei roi gan y Tribiwnlys.

Math o Gais	Nifer y Ceisiadau a Gwblhawyd (a'r rhai a gariwyd drosodd o 2012-2013)			
	2013-2014	2012-2013	2011-2012	2010-2011
Draenio Tir	1	5	5	2
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	8	4	12	8
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	1	0	3	4
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	2	1	2	2
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	1	0	0
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	0	1
Offer Parhaol	0	0	0	0
Cyfanswm	12	11	22	17

Tabl 2.4 Ceisiadau a gwblhawyd yn 2013-2014 yn ôl Canlyniad



Tabl 2.5 Ceisiadau yn 2013-2014 yn ôl Math o Achos a Chanlyniad

Math o Gais	Canlyniad (yn cynnwys rhai a gariwyd drosodd o 2012-2013)				
	Tynnu'n ôl	Gorchymyn Cydsynio	Gwrthod	Cefnogi	Cario Drosodd
Draenio Tir	1	0	0	0	2
Olyniaeth yn dilyn Marwolaeth	6	2	0	0	6
Olyniaeth yn dilyn Ymddeoliad	0	1	0	0	2
Caniatâd i gyflwyno Rhybudd i Ymadael	2	0	0	0	4
Tystysgrif Hwsmonaeth Wael	0	0	0	0	1
Cymeradwyaeth i wneud Gwelliannau Hirdymor	0	0	0	0	0
Offer Parhaol	0	0	0	0	0
Cyfanswm	9	3	0	0	15

Gwrandawïadau

Yn ystod 2013-2014 aeth 4 cais ymlaen i wrandawïad, ac o'r rhai hynny nifer y diwrnodau gwrandawïad gan gynnwys ymweliad safle lle'r oedd angen oedd 6 diwrnod. O'r 4 cais a aeth ymlaen i wrandawïad, mae 2 gais yn aros am ddedfryd ac wedi'u cario drosodd.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn roedd hefyd l gwrandawriad panel mewn perthynas â chais am gostau ac l gwrandawriad papur mewn perthynas â chais i adolygu penderfyniad y tribiwnlys.

Adolygiadau ac apeliadau sy'n cael eu hanfon ymlaen

Gall partïon wneud cais am adolygiad o benderfyniad tribiwnlys ar seiliau cyfyngedig. Yng nghyfnod yr adroddiad hwn, gwnaed un cais ac fe gafodd ei wrthod.

Gellir apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys ar bwynt cyfreithiol. Ni ddaeth unrhyw apêl i law yn ystod y flwyddyn.

Cyflawniad ar sail dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ceisio mesur dwy agwedd allweddol ar ein gwaith; effeithlonrwydd ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy fodlonrwydd cwsmeriaid.


Er mwyn mesur effeithlonrwydd ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerwyd i brosesu cais – o adeg derbyn y cais i'r gwrandawriad neu benderfyniad.

Er mwyn mesur bodlonrwydd cwsmeriaid, defnyddir dangosydd sy'n deillio o arolygon cwsmeriaid a gynhelir bob hyn a hyn.

Cwynion

Derbyniodd y tribiwnlys un gwyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Effeithlonrwydd ein gwasanaeth



* Methwyd â chyrraedd y targed mewn 2 achos. Roedd hyn yn sgil cymhlethdod yr achosion.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

Arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid

Mae ysgrifennydd y tribiwnlys yn ceisio gwella'r gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid a'i nod yw rhoi lle canolog i'r cwsmeriaid ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Pan fydd cais yn cael ei gwblhau, bydd ysgrifennydd y tribiwnlys yn cynnal arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid. Maent yn dangos i ni beth mae'r tribiwnlys yn ei wneud yn dda, ac yn tynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r tribiwnlys eu gwella.

Llenwyd 5 ffurflen yn ystod 2013-2014. O'r rhain:

- Roedd 100% o'r cwsmeriaid yn dweud bod y tribiwnlys yn gymwynasgar wrth ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn, ein bod wedi ymateb yn gyflym a'u bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant;
- Roedd 100% o'r cwsmeriaid yn cytuno bod y tribiwnlys wedi prosesu eu hachos yn effeithlon.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau Busnes ar gyfer 2014-2015

Mae'n bwysig bod y tribiwnlys yn dal i ddatblygu er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bydd y tribiwnlys yn adeiladu ar ei lwyddiannau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

Blaenoriaethau Busnes 2014-2015

- recriwtio, penodi ac ymsefydlu dirprwy gadeirydd i'r tribiwnlys,
- cynnal gwefan gyfoes ar gyfer y tribiwnlys a datblygu a monitro system adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â gwefan newydd y tribiwnlys,
- cynllunio a chynnal cynhadledd hyfforddi i'r holl aelodau,
- gweithredu rhaglen werthuso perfformiad ar gyfer aelodau'r tribiwnlys,
- parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan sicrhau bod dangosyddion perfformiad pwysig yn cael eu cyflawni a bod arolygon bodlonrwydd cwsmeriaid yn cael eu cyflawni a'u monitro.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2013-2014

Gwariant ar gyfer 2013-2014

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Chostau'r Cadeirydd	£11,500
Gwrandawïadau	£5,000
Costau'r Aelodau	£3,000
CYFANSWM	£19,500

*i'r £1,000 agosaf.